



Ian Llewellyn
Rheolwr Blaengynllunio
Cyngor Sir Gaerfyrddin
5-8 Stryd Spillman
Caerfyrddin
SA31 1JY

06 Chwefror 2019

Annwyl Ian,

Cyngor Sir Gaerfyrddin – Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir: Ymateb Llywodraeth Cymru

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd Cyngor Sir Gaerfyrddin – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n hanfodol bod gan yr Awdurdod CDLI wedi'i ddiweddarau i roi sicrwydd i gymunedau lleol a buddsoddwyr.

Heb beryglu pwerau'r Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) i leihau i'r eithaf y risg o gyflwyno cynlluniau sydd heb fod yn gadarn trwy wneud sylwadau priodol ar gamau cynharaf y broses o baratoi cynlluniau. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth eglur bod y profion cadernid (a nodir yn y 'Llawlyfr CDLI') yn cael sylw.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10, yn cadarnhau mai'r flaenoriaeth gynllunio genedlaethol allweddol yw creu mannau cynaliadwy o ansawdd da, trwy greu lleoedd. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol mabwysiadu golwg ehangach, gynaliadwy, sy'n datrys problemau gyda ffocws ar integreiddio a mynd i'r afael â materion lluosog. Mae hyn yn golygu newid o'r dull traddodiadol o ystyried meysydd polisi ar wahân ac yn rhoi anogaeth ar gyfer polisiau sy'n fwy seiliedig ar leoedd. Rhaid dangos y saith nod llesiant hefyd, ynghyd â'r pum ffordd o weithio sy'n annog pawb i feddwl mewn ffordd integredig a chydweithredol am lunio polisiau, gan ragweld tueddiadau hirdymor. Rhaid i unrhyw gyfeiriadau at PCC yn y cynllun a'r sail dystiolaeth ategol gael eu diweddarau i gyfeirio at yr egwyddorion yn PCC Argraffiad 10 a'u hadlewyrchu.

Fel **cynllun newydd mae'r cyd-destun cyfyngedig a dogfennau cefndir a phapurau testun ar faterion allweddol, megis y cyflenwad o dai/elfennau tai, y Gymraeg, yr Aseiad o'r Farchnad Dai Leol, yr aseiad o hyfywedd tai fforddiadwy, yr aseiad Sipsiwn a Theithwyr (ar gyfer cyfnod y cynllun) yn siomedig gan fod sail dystiolaeth gadarn yn hanfodol i ddeall y Strategaeth a Ffefrir yn llawn.** Er bod yr ymgynghoriad yn crybwyll astudiaethau drafft a gwaith a fydd yn cael ei wneud ar gyfer y Cynllun Adnewid, mae'n anodd darparu sylwadau gan nad yw llawer o'r rhain wedi cael eu cwblhau eto. O gofio bod cynllun mabwysiedig eisoes yn bodoli roedd

cyfle i ddefnyddio cam y Strategaeth a Ffeirir i ymgynghori ar y polisiâu hynny na ragwelir y byddant yn newid, yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu diwygio.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru bryderon sylweddol ynghylch ethos ac amcanion yr hyn y mae'r Strategaeth a Ffeirir yn ceisio'i gyflawni, na'r ymagwedd tuag at Glystyrau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. **Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn pryderu bod dosbarthiad arfaethedig twf tai, yn enwedig yn Haenau anheddiadau 3 a 4, yn codi materion ynglŷn â chynaliadwyedd yn seiliedig ar rôl a swyddogaeth lleoedd.** Gan gydnabod nodweddion gwledig Sir Gaerfyrddin, nid yw graddfa a dosbarthiad twf yn aneddiadau Haen 3 a 4 yn alinio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, PCC na thystiolaeth y Cyngor ei hun (yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Papur ar Rôl a Swyddogaeth Aneddiadau) ac mae potensial iddynt gael effaith niweidiol ar y Gymraeg. **Caiff hyn ei egluro'n fanwl yn yr Atodiad.**

Bydd dangos sut y cyflawnir y strategaeth a dyraniadau allweddol yn hollbwysig a dylai hyn gael ei ategu gan dystiolaeth eich Awdurdod yn y Cynllun Adneuo. Nodir sylwadau pellach yn yr atodiad wrth y llythyr hwn a cheir canllawiau ychwanegol yn y Llawlyfr CDLI Drafft (3^{ydd} argraffiad).

Mae profion cadernid Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a PCC yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng ACLlau cyfagos i sicrhau'r deilliannau cynllunio gorau posibl i gymunedau. Mae gan Sir Gaerfyrddin berthnasoedd cryf â Chynghorau cyfagos, megis Sir Benfro, Abertawe a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dylai'r cynllun ddangos sut y mae'r perthnasoedd hyn wedi dylanwadu ar y strategaeth ac, ar gamau diweddarach, polisiâu/cynigion a dyraniadau safleoedd y cynllun.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Rheoli Adnoddau Dynol yn Gynaliadwy gyda darpariaethau i gyrff cyhoeddus gyfrannu at Reoli Adnoddau Dynol yn Gynaliadwy. Dylai'r Strategaeth a Ffeirir nodi 'cyfeiriad teithio' o ran sut y bydd y cynllun yn amcanu at wella a pheidio â lleihau bioamrywiaeth a hybu cydnerthed ecosystemau. Ar hyn o bryd, nid yw'r Strategaeth a Ffeirir yn adlewyrchu Deddf yr Amgylchedd 2016 yn ddigonol.

Mae ein sylwadau hefyd yn cynnwys materion mwy manwl yn yr atodiad wrth y llythyr hwn. Ar y cyd, mae ein sylwadau'n amlygu ystod o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn ein tyb ni er mwyn ystyried bod y cynllun yn 'gadarn'. Rydym wedi dynodi lle nad yw prawf o gadernid yn amlwg ar unwaith a lle gellir gwella neu gryfhau'r sail dystiolaeth yn y dyfodol. Mae meysydd allweddol yn cynnwys:

- Y strategaeth ofodol, graddfa a dosbarthiad twf
- Twf cyflogaeth a thwf economaidd
- Darparu a gweithredu safleoedd
- Y Gymraeg
- Tai fforddiadwy a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Sipsiwn a Theithwyr
- Ynni adnewyddadwy
- Mwynau

Rydym yn cynghori'n gryf eich bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn cynyddu i'r eithaf y potensial y caiff eich CDLI ei ystyried yn un 'cadarn' ar y cam Adneuo.

Fel bob amser, byddem yn erfyn arnoch i geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun i sicrhau eich bod wedi ateb yr holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylai Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n ofynnol dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, os yn briodol, gael ei gynnal i asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau dull seiliedig ar gynlluniau o fynd ar drywydd datblygu yng Nghymru. Hyderaf y bydd y sylwadau hyn yn eich cynorthwyo i baratoi eich Cynllun Adneuo ac i sicrhau y gellir cael bod eich CDLI yn 'gadarn' ac y gellir ei fabwysiadu yn dilyn archwiliad annibynnol. Mae fy nghydweithwyr yn edrych ymlaen at gwrdd â chi a'ch tîm i drafod materion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn.

Yn gywir,



Mark Newey
Pennaeth y Gangen Cynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Atodiad wrth Lythyr Llywodraeth Cymru 06 Chwefror 2019 mewn ymateb i CDLI Newydd Cyngor Sir Gaerfyrddin – Strategaeth a Ffefrir

Lefelau Twf: Cartrefi a Swyddi

Mae'r awdurdod wedi archwilio chwe senario twf sy'n seiliedig ar y boblogaeth a dau senario sydd wedi'u harwain gan gyflogaeth. Mae'r awdurdod wedi dod i'r casgliad y byddai amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014 yn arwain at lefelau isel o dwf tai gan effeithio'n negyddol ar newid demograffig (dirwyiad yn y boblogaeth) a'r gallu i gefnogi twf economaidd. Byddai'r Prif amcanestyniad sy'n seiliedig ar 2014 ac amcanestyniadau amrywiol yn seiliedig ar 2014 (ymfudo deng mlynedd) yn arwain at ofyniad am anheddau o 3,367 a 6,542 yn y drefn honno. Yr opsiwn twf a ffefrir gan y Cyngor yw 'Twf Poblogaeth Hirdymor' sydd wedi'i seilio ar ragdybiaethau ynghylch llif ymfudiad mewnol a rhyngwladol sylweddol o 1,423 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd dros y cyfnod o un flwyddyn ar bymtheg o 2001/02-2016/17. Mae'r cyfnod hwn yn ystyried y lefelau ymfudiad uchel cyn 2008, ac ymfudiad net is yn ar ôl y dirwasgiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn gan fod marwolaethau'n uwch na genedigaethau; ymfudiad net yw'r prif ysgogydd ar gyfer y newid yn y boblogaeth. Mae'r Senario Twf Poblogaeth Hirdymor yn arwain at ofyniad am anheddau o 9,887 o anheddau (659 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun. Mae hyn yn seiliedig ar gyfradd anheddau gwag o 3.4% (wedi'i addasu o Gyfradd Anheddau Gwag o 6.3% yn y Cyfrifiad) sy'n ystyried data diweddar ynghylch ail gartrefi a chartrefi gwag. **Mae hyn yn wyriad o 6,520 o anheddau uwchlaw prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014 a 3,345 o anheddau uwchlaw'r amcanestyniad amrywiol yn seiliedig ar 2014 (ymfudo deng mlynedd).** Mae'r gofyniad arfaethedig am dai o 9,887 yn ostyngiad sylweddol o 5,310 o anheddau o ofyniad o 15,197 o gartrefi yn y cynllun mabwysiedig cyfredol.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn egluro y byddai'r senario(s) seiliedig ar swyddi a brofwyd yn arwain at ofyniad am 17,000 – 20,000 o gartrefi dros gyfnod y cynllun. Mae'r Cyngor wedi nodi y byddai hyn yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni ac sy'n anghynaliadwy. Mae'r gyfradd ddiweddar o ran tai a gwblhawyd yn seiliedig ar ffigyrau cyfartalog Cydastudiaethau Tir ar gyfer Tai dros 10 mlynedd oddeutu 500 annedd y flwyddyn. I grynhoi, mae'r Cyngor wedi dewis senario seiliedig ar ddemograffeg a fydd yn cyfrannu at gyflawni dyheadau economaidd y Cyngor. Byddai'r cynnydd yn y boblogaeth a dargedir gan y Senario Twf Poblogaeth Hirdymor yn arwain at roi cymorth i greu 5,295 o swyddi (353 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun. **Rhaid i'r awdurdod gyfiawnhau/dangos yn llawn bod y lefelau twf wedi'u cyfeirio at y lleoedd mwyaf cynaliadwy, yn gysylltiedig â graddfa a lleoliad yr angen am dai, heb effeithio'n negyddol ar y Gymraeg a'u bod yn realistig ac y gellir eu cyflawni.** Dylech ddangos hefyd bod y strategaeth twf yn gydnaws â dyheadau awdurdodau cyfagos a'i bod yn darparu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy o ran twf ar gyfer yr ardal ehangach. Gweler y sylwadau ar y strategaeth ofodol.

Y Strategaeth Ofodol a Dosbarthiad Twf

Y Strategaeth a Ffefrir – Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd mai Opsiwn Hybrid – 'Strategaeth Twf Cynaliadwy a Chymuned Gytbwys' yw'r un fwyaf priodol. Cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd yr opsiwn hwn (Arfarniad o Gynaliadwyedd, adran 4.5) a dyma'r 'Strategaeth a Ffefrir'. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ymgorffori'r elfennau craidd o Opsiynau 2, 4, 5 a 6 a gaiff eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae twf wedi'i neilltuo i ardaloedd trefol, gan hefyd gydnabod rôl a swyddogaeth aneddiadau gwledig

- Mae'n adlewyrchu cyfleoedd i fuddsoddi a manteision economaidd a gynigir i'r Sir trwy'r Fargen Ddinesig.
- Mae'n cydnabod bod angen i dwf cynaliadwy gael ei ategu gan argaeledd seilwaith ac ystod o seilwaith.
- Dylai twf hefyd fod yn dwf y gellir ei gyflawni ac wedi'i gyfeirio at angen cymunedol a galw'r farchnad.

Mae gofyn darparu mwy o eglurder ynghylch canlyniad gofodol y Strategaeth a Ffefrir.

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn amlygu mai goblygiadau negyddol Opsiwn 4 yw y gallai arwain at swm anghymesur o ddatblygu mewn lleoliadau anghynaliadwy, gan greu siwrneiau ychwanegol sylweddol mewn ceir. Yn niffyg Asesiad o'r Farchnad Dai Leol nid yw'n eglur sut y mae lefel a lleoliad yr angen am dai wedi dylanwadu ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae gofyn cyfiawnhau'r Opsiwn Hybrid a'i ddsbarthiad gofodol yn benodol; sut y bydd yn darparu tai fforddiadwy, twf cyflogaeth, llai o gymudo, sut y mae'n dwyn perthynas â'r hierarchaeth cludiant cynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol), seilwaith, yn lleihau i'r eithaf lygredd aer ac effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg. Dylid ystyried y rhain yng ngoleuni 'diogelu at y dyfodol' a sut y gall technoleg drefnu'r modd y bydd lleoedd yn gweithredu yn y dyfodol, gan ystyried cysylltiadau digidol, telathrebu, cerbydau ag allyriadau isel a manteision cysylltiedig patrymau symud.

Fframwaith a Dosbarthiad Aneddiadau (Polisi SP16: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau) – Rydym yn nodi bod fframwaith gofodol newydd yr awdurdod a nodir yn SP16 yn wahanol i'r cynllun mabwysiedig ac yn mabwysiadu dull 'clwstwr'. Ceir 6 chlwstwr o ardaloedd sydd wedi'u cysylltu'n swyddogaethol ac o fewn pob clwstwr ceir pedair haen o aneddiadau (Haen 1: Prif Ganolfannau, Haen 2: Canolfannau Gwasanaethau, Haen 3: Pentrefi Cynaliadwy, Haen 4: Pentrefi Gwledig). Mae'r holl aneddiadau wedi'u cysylltu'n swyddogaethol 'yn bennaf' o fewn y clwstwr, gydag aneddiadau ar haenau is wedi'u cysylltu ag aneddiadau ar haenau uwch sydd â mwy o wasanaethau a chyfleusterau. **Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor y dull hwn; y prif bryder yw graddfa'r twf a gyfeirir at bob haen yn berthynol i rôl a swyddogaeth a chynaliadwyedd lleoedd.**

Mae'r Papur Testun Rôl a Swyddogaeth yn cynnwys dadansoddiad o'r gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yn Haenau 1-3. Mae'r cyfiawnhad rhesymedig dros SP16 yn nodi y bydd twf wedi'i ddsbarthu fwy neu lai fel a ganlyn :

- Prif Ganolfannau 50-55% (â ffin anheddiad)
- Canolfannau Gwasanaethau 15-20% (â ffin anheddiad)
- Pentrefi Cynaliadwy 15-20% (â ffin anheddiad)
- Pentrefi Gwledig 15-20% and (dim ffin anheddiad)
- Aneddiadau Gwledig Heb Eu Diffinio (1%) (dim ffin anheddiad)

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu bod graddfa a dosbarthiad arfaethedig twf tai, yn enwedig yn Haenau 3 a 4, yn dwyn goblygiadau o ran cynaliadwyedd ac y gallent effeithio'n negyddol ar y Gymraeg. Nid yw'n eglur pam fod yr un gyfran o dwf â Haenau 3 a 4 wedi cael ei dyrannu i'r Canolfannau Gwasanaethau mwy cynaliadwy? Hefyd, mae'n aneglur pam y byddai gan Bentrefi Gwledig (Haen 4) sydd heb ffiniau anheddiad, gwasanaethau na chyfleusterau yr un lefelau twf/capaciti ar gyfer twf ag aneddiadau Haen 2? Caiff y pwynt yma ei atgyfnerthu gan y Papur Testun Rôl a Swyddogaeth sy'n amlygu bod gan aneddiadau Haen 3 – Pentrefi Cynaliadwy, mewn termau eang, wasanaethau a chyfleusterau cyfyngedig. Nid yw aneddiadau Haen 4 wedi'u hasesu hyd yn oed. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod nodweddion gwledig Sir Gaerfyrddin, nid yw'n ymddangos bod graddfa a dosbarthiad y twf yn gymesur ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, na thystiolaeth y Cyngor ei hun o fewn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd neu'r Papur Rôl a Swyddogaeth. **I grynhoi mae gan Lywodraeth Cymru bryderon bod graddfa'r twf a gynigir i Haenau 3 a 4 o'r hierarchaeth aneddiadau yn gwrthdaro â PCC.**

Er mwyn dangos sut y byddai twf yn cael ei gyflawni a'i ddsbarthu'n gynaliadwy ar draws yr hierarchaeth aneddiadau rhaid i'r Cynllun Adneuo; **Nodi dosbarthiad gofodol ac elfennau'r cyflenwad o dir ar gyfer tai** fel dyraniadau, ymrwymadau a hap-safleoedd (bach a mawr) ar gyfer pob haen aneddiadau y byddant yn cael eu darparu ynddynt (Gweler y Llawlyfr CDLI, Argraffiad 3). **Rhaid i'r fframwaith polisi egluro'r math o ddatblygu a graddfa'r datblygiadau a fyddai'n briodol ar bob haen yn yr hierarchaeth.** Mae angen cryfhau Polisi SP12 yn hyn o beth.

Twf cyflogaeth a thwf economaidd

Mae Polisi SP1 yn rhoi cymorth i gyflawni tua 5,300 o swyddi. Mae gofyn darparu rhagor o dystiolaeth ac eglurhad ar gyfer sut a ble y bydd lefel y twf mewn swyddi'n cael ei chyflawni, gan gynnwys dyraniadau strategol ac anstrategol. Nid yw'n eglur beth yw lefel y ddarpariaeth cyflogaeth ac ar gyfer pa sector a sut y mae hyn yn trosi'n ofyniad am dir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth? **Mae'r sail dystiolaeth gyfredol ar gyfer cyflogaeth yn anghyson ac yn aneglur.** Ar hyn o bryd nid yw'r cynllun yn nodi'r math o safleoedd cyflogaeth allweddol na lleoliad safleoedd o'r fath sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth. Mae gofyn rhoi eglurhad pellach hefyd o ran sut y mae'r holl gyfleoedd sy'n codi o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe wedi cael eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o'r strategaeth economaidd.

Dylai'r Cynllun Adneuo:

- roi mwy o eglurhad o'r cysylltiad rhwng y gofyniad am dai yn y cynllun a'r targed ar gyfer 5,300 o swyddi i sicrhau aliniad eang mewn rhagamcaniadau ynglŷn â gweithgarwch economaidd a'r llafurlu a lleihau'r angen i gymudo;
- nodi targed a chlustog cyflogaeth (ha) / swyddi;
- nodi dyraniadau gofodol i ddiwallu'r angen dynodedig gan gynnwys manylion bras amseru a chyflawni'n raddol a diffinio'r defnydd o dir yn ôl Dosbarth Defnydd;
- os yn briodol, cynnwys polisi newydd i amddiffyn a nodi safleoedd cyflogaeth allweddol i'w diogelu ar gyfer defnydd cyflogaeth yn y dyfodol;
- cynnwys polisi i gefnogi defnyddiau eraill ar safleoedd cyflogaeth presennol nad ydynt wedi'u diogelu;
- egluro sut y bydd safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu darparu, yn enwedig dyraniadau allweddol; a pholisïau i hybu a chynnal yr economi wledig.

Cyflawni a gweithredu

Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar ddyrannu tai gan yr awdurdod sydd at ei gilydd yn hyfyw, yn rhai y gellir eu darparu ac yn unol â'r strategaeth ofodol. Mae'r Llawlyfr Drafft (Argraffiad 3) Pennod 5: Paratoi CDLI (Materion Craidd) yn nodi'r materion allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy. **Dylai'r Cyngor sicrhau bod y Cynllun Adneuo wedi ymdrin â'r holl elfennau perthnasol, gan roi sylw arbennig i'r rhestr wirio lleihau risgiau.**

Er mwyn dangos sut y bwriedir cyflawni a gweithredu, **rhaid i'r Cynllun Adneuo gael ei danategu gan waith hyfywedd, cynllun seilwaith a chynnwys tafliwybr tai cadarn** (wedi'u cynnwys fel Atodiad yn y cynllun) a thabl y cyflenwad o dir ar gyfer tai.

Ac eithrio'r ddau safle strategol, nid yw'r cynllun yn cyfeirio o gwbl at y dyraniadau (tai na chyflogaeth) sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth. Nid oes arwydd na dadansoddiad o safleoedd ymgeisiol 'allweddol', nac o'r dyraniadau presennol a'u perthnasedd na statws yn y dyfodol. Nid oes asesiad bras o'r banc tir cyfredol, hap-safleoedd a safleoedd bach a allai gael eu cyflwyno i'w datblygu. Ni ddylai safleoedd sydd wedi'u dyrannu ond cael eu 'dwyn ymlaen' dan amgylchiadau eithriadol lle ceir tystiolaeth glir a chadarn y gellir eu darparu. Bydd angen gwaith hyfywedd safle-benodol, gan gynnwys eglurhad manwl o amseriad a chyflawni'n raddol, costau, a gofynion o ran

seilwaith gan gynnwys paratoi Datganiadau o Dir Cyffredin i ddangos sut y bwriedir cyflawni'r cynllun.

Mae'r Strategaeth a Ffeifrir yn nodi dau safle strategol (Polisi SP5); Clwstwr Creadigol Yr Egin yng Nghaerfyrddin a phrosiect Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli sydd ill dau yn elfennau o Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Rhaid i'r Cynllun Adneuo ddangos y gallu i ddarparu'r ddau safle yn unigol ac ar y cyd, ynghyd â Datganiad o Dir Cyffredin gyda datblygwyr. **Dylai'r Cynllun Adneuo nodi manylion safle-benodol ar gyfer dyraniadau allweddol gan gynnwys fframweithiau sgematig sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfywedd, graddfeydd amser cyffredinol ar gyfer darparu'n raddol, gofynion allweddol o ran seilwaith a thystiolaeth o ymrwymiad gan ddatblygwyr.**

Mater allweddol a amlygwyd yn sail dystiolaeth y Cyngor (Papur Testun Opsiynau Gofodol, para 8.9) yw na chafodd anheddau i'w cwblhau/safleoedd eu cyflwyno fel a ragwelwyd yn yr haenau aneddiadau mwy cynaliadwy sy'n awgrymu bod anheddau wedi bod yn cael eu cwblhau yn yr ardaloedd lleiaf cynaliadwy. **Mae hyn wedi bod yn ddiffyg mawr yn y cynllun presennol na ddylai gael ei ailadrodd yn y CDLI diwygiedig.**

Yn olaf, mae'r Cyngor yn cynnig ychwanegu lwfans hyblygrwydd o 6% (593 o unedau) at y gofyniad am dai. **Mae gofyn rhoi tystiolaeth bellach pam fod 6% yn briodol**, a beth yw'r berthynas rhwng hyn a'r holl elfennau tai a'r modd y cânt eu darparu a'u datblygu'n raddol dros gyfnod y cynllun. Mae ffigwr o 6% i'w weld yn isel yng nghyd-destun Cyfartaledd Cymru (10%) a'r natur fwy gwledig / proffil datblygwyr a geir yn Sir Gaerfyrddin.

Y Gymraeg

Mae Polisi SP7 – Y Gymraeg yn amlygu pwysigrwydd y Gymraeg i'r ardal. Mae papur testun sy'n nodi sut y mae'r Gymraeg wedi dylanwadu ar raddfa'r twf a'r strategaeth yn hanfodol o ystyried arwyddocâd y Gymraeg ar gyfer y CDLI hwn. Mae angen i ganlyniad lefel/dosbarthiad y twf a gynigir ar gyfer y Gymraeg gael ei egluro yn enwedig gan fod lefelau uchel o fewnlifiad ac ymfudo rhyngwladol yn y gorffennol yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau'r gofyniad am dai. **Mae hwn yn ofyniad allweddol yn TAN 20 nad yw wedi cael sylw.** Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yr Opsiwn Hybrid yn cyfeirio at effeithiau cadarnhaol (Arfarniad o Gynaliadwyedd, Ffigur 6); fodd bynnag, nid yw goblygiadau'r hierarchaeth aneddiadau a dosbarthiad arfaethedig twf (SP16) yn bendant yn hyn o beth (Arfarniad o Gynaliadwyedd, Ffigur 8). Nid oes arwydd bod yr awdurdod wedi ystyried y dulliau strategol posibl o ymdrin â'r Gymraeg, fel a nodir ym mharagraff 2.5.2 o TAN 20. Dylai'r awdurdod ystyried dull addas, gan ystyried sut y mae'n cyd-fynd ag awdurdodau cyfagos, ac ystyried a oes unrhyw effeithiau a ragwelir ar yr iaith y dylid eu hosgoi neu lle na ellir eu hosgoi, y mae'n ofynnol eu lliniaru.

Tai fforddiadwy a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

Mae diffyg **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol** wedi'i ddiweddarau yn ddiffyg mawr gan ei fod yn ddarn creiddiol o dystiolaeth sylfaenol sy'n dylanwadu ar raddfa tai, y math o dai a lleoliad tai. **Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn allweddol bwysig i ddangos bod lefel y tai a'r math o dai a gynigir yn adlewyrchu anghenion lleol.** Dylai cysyllteddau â materion cynaliadwyedd gael eu cysoni hefyd; h.y. pam ei bod, neu nad ydyw, yn briodol lleoli tai fforddiadwy mewn cymunedau llai cynaliadwy. **Ar hyn o bryd mae'n aneglur beth yw'r berthynas rhwng dosbarthiad twf ac ardaloedd lle mae'n hyfyw neu lle mae ei angen?** Er bod yr awdurdod yn cyfeirio at darged tai fforddiadwy ym mharagraff 11.42 sy'n crybwyll y targed o 1,000 o gartrefi yng Nghynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2016-2020, dylai Polisi SP4 'Tai Fforddiadwy' bennu targed ar gyfer cartrefi fforddiadwy. Mae'r Llawlyfr CDLI (argraffiad 3) yn nodi canllawiau manwl ynghylch hyfywedd ac yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer datblygu fframwaith polisi tai fforddiadwy.

Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr

Nid yw'r Asesiad diweddaraf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn rhan o'r sail dystiolaeth i roi gwybodaeth am anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Rhaid i'r Awdurdod sicrhau mai'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr y cyfeirir ato yn y cyfiawnhad rhesymedig dros Bolisi SP9 yw'r fersiwn a gymeradwywyd ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru.

Er mwyn nodi lefel yr angen a graddfeydd amser ar gyfer darparu, rhaid i'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gwmpasu cyfnod y cynllun newydd yn ei gyfanrwydd (2018-2033), nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd. Erbyn y cam Adneuo, rhaid i'r Asesiad newydd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei baratoi a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru gyda darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer dyraniadau safleoedd sy'n briodol ac y gellir eu darparu i ddiwallu unrhyw angen yn y graddfeydd amser a nodir. Rydym yn nodi bod y Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn cynnal galwad ar wahân am safleoedd sipsiwn a theithwyr (tan fis Ebrill), gan gynnwys y fethodoleg ar gyfer dethol safleoedd. **Mae hwn yn fater allweddol i'r awdurdod ac mae methiant i nodi lefel yr angen a safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Adneuo i ddiwallu'r angen dynodedig yn debygol o arwain at fethu â chael bod y cynllun yn gadarn.** Yn y Cynllun Adneuo, rhaid i ganlyniadau'r Asesiad newydd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr fod yn glir o ran cyfanswm yr angen a'r math o angen a graddfeydd amser ar gyfer bodloni hyn hyd at 2033.

Mwynau

Dylai'r Cynllun Adneuo gyfeirio at y gofynion banc tir a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol a nodi sut y bydd y CDLI yn bodloni'r rhain. Nid ydym yn cytuno â'r datganiad ym mharagraff 11.155 bod "ffigyrau banc tir y Sir, ar gyfer craig galed a thywod a graean, yn nodedig yn uwch nag isafswm y gofynion a nodir yn MTAN 1, ac o ganlyniad nid oes gofyniad i ddyrannu safleoedd newydd ar gyfer datblygu mwynau". Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (a gymeradwywyd yn 2014) yn nodi bod tanddarpariaeth o 2.94mt o gronfeydd tywod a graean yn rhanbarth Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol). Dylai'r awdurdodau hyn gydweithio i fynd i'r afael â'r diffyg a nodi safleoedd penodol.

Ynni adnewyddadwy

Dylai ACLlau gyflawni rôl arweiniol o ran cynllunio mewn modd rhagweithiol ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai ACLlau wneud defnydd llawn o dystiolaeth yn ei hasesiadau o ynni adnewyddadwy i ddatblygu polisïau lleol-benodol, pennu targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy a chyfeirio datblygu at y lleoliadau mwyaf priodol. **Mae'n eithriadol o siomedig nad yw dogfen y Strategaeth a Ffeirir yn cynnwys polisi penodol ar ynni adnewyddadwy, ac nad yw'n glir ychwaith sut y mae polisïau ar gyfer datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy wedi dylanwadu ar y strategaeth. Nid oes tystiolaeth ar y testun hwn ar hyn o bryd.**

Polisi Strategol 13 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Rhaid cymryd cyfleoedd ar lefel y cynllun i sicrhau bod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'n cael eu gwella er mwyn cyflawni dyletswyddau dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd. Y cynllun yw'r cyfle i fabwysiadu dull cynhwysfawr o wella a nodi'r hyn y gellir ei gyflawni. Mae'r dull hwn yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni fel rhan o nodi dyraniadau.

Dylai Polisi Strategol 13 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol gael ei ail-fframio fel 'Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol'. Byddai o gymorth deall sut y bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd (fel sy'n ofynnol yn PCC10) yn goleuo'r broses o weithredu'r polisi hwn a hefyd perthynas y polisi hwn â Pholisi Strategol 8: Seilwaith. Rhaid cymryd cyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gwella a sicrhau cydnerthedd ecosystemau ar lefel y cynllun er mwyn cyflawni dyletswyddau yn Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd. Y cynllun yw'r cyfle i fabwysiadu dull cynhwysfawr o wella a nodi'r hyn y gellir ei gyflawni.
